QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Canfyddiadau Myfyrwyr o Welliant

## Crynodeb

Hydref 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Contents


**Crynodeb** 1

**Rhagarweiniad** 3

**Methodoleg** 3

**Canfyddiadau allweddol** 4

Canfyddiadau myfyrwyr o welliant 4

Terminoleg gwelliant myfyrwyr 7

Cyfleoedd myfyrwyr ar gyfer gwelliant 9

Ymgysylltiad myfyrwyr â gwelliant 14

Myfyrwyr fel partneriaid 16

**Trafodaeth a chasgliadau** 18

Camau nesaf posibl 20

**Cyfeirnodau** 21

**Atodlen 1: Cwestiynau ar gyfer Grwpiau Ffocws** 22

**Atodlen 2: Cyfranwyr at y prosiect** 22

# Crynodeb

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon i gefnogi'r dull trydyddol sy'n datblygu yng Nghymru ac fe'i comisiynwyd gan CCAUC.[1] Ei ddiben yw casglu sut mae myfyrwyr ar draws addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn deall gwelliant a'u cyfleoedd i ymgysylltu â mentrau gwella a'u llywio mewn perthynas â chryfhau'r profiad dysgu. Mae rhoi'r dysgwr wrth galon y system drydyddol yn un o bum blaenoriaeth strategol Medr ac mae llais y dysgwr yn nodwedd hollbwysig o'i waith. Mae'r adroddiad hwn yn coladu ac yn crynhoi safbwyntiau trawstoriad o fyfyrwyr o'r sector ôl-16 yng Nghymru.[2] Mae hefyd yn cynnwys mewnbwn gan Grŵp Arbenigwyr Myfyrwyr ar Ansawdd Trydyddol (TQSEG) partneriaeth myfyrwyr mewn ansawdd yn yr Alban (sparqs). Diben yr adroddiad, ynghyd â'r argymhellion a awgrymir, yw helpu i lywio mentrau strategol Medr yn y dyfodol mewn perthynas â llais y dysgwr, gan gynnwys creu Côd Ymgysylltu â Dysgwyr,[3] a gwreiddio diwylliant cryfach wedi'i gyd-greu ac a arweinir gan welliant ar draws y sector trydyddol yng Nghymru.

Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr a gymerodd ran yn diffinio gwelliant fel '*gwneud pethau'n well*'. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a oedd gwelliant yn berthnasol i brofiad academaidd yn unig neu agweddau eraill ar fywyd myfyriwr. Cydnabuwyd yr angen i gynllunio a gwerthuso gwelliant, er bod cydnabyddiaeth hefyd i werth digymellrwydd mewn perthynas â'r agenda gwelliant. Roedd pawb yn cydnabod y gallai gwelliant ddigwydd ar unrhyw lefel ar draws darparydd, a bod newidiadau gweithredol bach yn canolbwyntio ar raglenni neu adrannau yn aml yr un mor bwysig â mentrau strategol ar raddfa fwy ar draws darparydd. Rhannwyd profiadau personol gan y myfyrwyr i amlygu eu ffordd o feddwl; pwysleisiodd llawer bwysigrwydd newidiadau bach yn ymwneud â'u rhaglen benodol, megis newidiadau i'r amserlen. Pwysleisiwyd y rhan sylweddol y mae eu darlithwyr yn ei chwarae wrth alluogi newidiadau o'r fath, a thrwy hynny wella profiad myfyrwyr.

Roedd y gair 'gwelliant' yn cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr ar gyfer 'gwneud pethau'n well', er nad oeddent yn defnyddio'r term yn aml iawn eu hunain ac roedd lleiafrif yn teimlo bod perygl i ddarparwyr orddefnyddio'r ymadrodd 'gwella profiad myfyrwyr' - gan olygu ei fod yn mynd yn ddiystyr. Nid oedd 'cyfoethogi' yn derm yr oedd y rhan fwyaf yn gyfarwydd ag ef, er bod swyddogion myfyrwyr yn ymwybodol o'r term o ddogfennaeth fewnol y darparydd.

Ar y cyfan, roedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn deall ac yn gadarnhaol am yr ystod o fecanweithiau llais myfyrwyr sydd ar gael iddynt, a thrafodir nifer o'r rhain yn fanwl yn yr adroddiad hwn. Mae'r system cynrychioli myfyrwyr yn ymddangos yn fwy datblygedig mewn rhai darparwyr, ond roedd yn dda nodi bod yr holl fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws wedi nodi bod ganddynt gynrychiolydd myfyrwyr ar gyfer eu rhaglen a'u bod yn hyderus i godi materion gyda nhw. Roedd rhai, fodd bynnag, yn teimlo nad oedd cynrychiolwyr myfyrwyr bob amser yn ddigon gweladwy, tra bod cynrychiolwyr myfyrwyr hefyd yn cydnabod yr heriau o ran sicrhau cyfranogiad digonol mewn mecanweithiau llais myfyrwyr gan fyfyrwyr eraill.

Roedd mentrau adborth ar-lein yn cael eu hystyried yn ffordd wych o alluogi dull cynhwysol o ymgysylltu â myfyrwyr; fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o fyfyrwyr at ddiffyg amser, yn hytrach na diffyg diddordeb, fel eu rheswm dros beidio ag ymwneud â chyfleoedd ar gyfer gwelliant.

---

1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan CCAUC a ddisodlwyd, ar 1af Awst 2024, gan Medr - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil - fel y corff goruchwylio strategol newydd yng Nghymru. Bydd Medr yn ystyried y canlyniadau a'r camau nesaf posibl sy'n codi o'r adroddiad hwn.

2 Mae'r termau 'myfyriwr' a 'dysgwr' yn gyfnewidiadwy yn yr adroddiad hwn.

3 www.llyw.cymru/datganiad-strategol-blaenoriaethau-trydyddol-addysg-ac-ymchwil-ac-arloesi-html

Os oedd ansawdd yr addysgu yn 'dda' yn eu barn hwy, nododd sawl un eu bod yn fwy awyddus i ymgysylltu, a thrwy hynny helpu i gynorthwyo eu darlithwyr i wella'r ddarpariaeth ymhellach. Roedd y syniad hwn o berthyn i gymuned prifysgol neu goleg penodol yn nodwedd amlwg yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws, ac fe'i hystyriwyd yn elfen allweddol wrth annog ymgysylltiad myfyrwyr. Yn gyffredinol, teimlai myfyrwyr eu bod yn cael eu hysbysu'n dda mewn perthynas â newidiadau a wneir gan ddarparydd o ganlyniad i lais y dysgwr, er bod swyddogion myfyrwyr yn teimlo y gallai gwybodaeth bellach a diweddariadau gael eu rhannu ag undebau myfyrwyr weithiau hefyd.

Roedd y cysyniad o fyfyrwyr fel partneriaid - hynny yw, myfyrwyr yn gweithio'n agos gyda'u darparydd i wella profiad addysgu a dysgu pawb - yn amlwg yn aml ar lefel ysgol neu adran. Fodd bynnag, nid oedd y corff myfyrwyr cyffredinol, yn wahanol i swyddogion myfyrwyr, yn gweld eu hunain yn gweithio mewn partneriaeth â'u darparydd ar lefelau eraill. Gellid gweld amrywiaeth hefyd ar draws gwahanol raglenni, gyda nifer o fyfyrwyr rhan-amser yn pwysleisio ymrwymiadau personol a gwaith, a oedd yn golygu bod ganddynt lai o amser i ymgysylltu ymhellach â bywyd prifysgol neu goleg.

Mae'r adroddiad yn cloi gyda chyfres o gamau nesaf posibl ar gyfer y sector trydyddol yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- Cadarnhad ac eglurhad ar draws y sector AU ac AB ar ddefnyddio'r term gwelliant a diffiniadau cysylltiedig.
- Datblygu mecanweithiau llais myfyrwyr cyson a chynhwysol ar draws y sector AU ac AB.
- Hyrwyddo arfer effeithiol mewn mecanweithiau llais myfyrwyr.
- Cefnogi darparwyr i wreiddio a siapio ymagwedd a arweinir gan welliant at lais myfyrwyr.



# Rhagarweiniad

Pwrpas yr astudiaeth hon yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ganfyddiad myfyrwyr ar draws addysg bellach ac uwch yng Nghymru o welliant, a'r cyfleoedd sydd ganddynt i ymwneud â mentrau gwelliant. Mae rhoi'r dysgwr wrth galon y system drydyddol yn un o bum blaenoriaeth strategol y corff trydyddol sydd newydd ei ffurfio, Medr, sy'n disodli CCAUC a bydd llais y dysgwr yn chwarae rhan ganolog yn ei waith, trwy fentrau fel Côd Ymgysylltu â Dysgwyr. . Bydd y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn a gomisiynwyd gan CCAUC yn helpu i lywio datblygiadau o'r fath ac yn helpu Medr i wella'n barhaus y profiad dysgu i bob myfyriwr trwy gyd-greu a phartneriaeth.

# Methodoleg

O ran dynodi a recriwtio myfyrwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil, cysylltodd QAA â'r holl ddarparwyr addysg uwch (AU) ac addysg bellach (AB) yng Nghymru ym mis Ionawr 2024, a gofynnwyd am gymorth i nodi myfyrwyr a fyddai'n fodlon cymryd rhan mewn grŵp ffocws i drafod eu canfyddiadau o welliant a llais y myfyriwr. Amlygwyd y prosiect hefyd, a dosbarthwyd gwybodaeth mewn digwyddiadau QAA a chyfarfodydd cyswllt gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill megis ColegauCymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac UCM Cymru; yn ogystal â thrwy sianeli cyfryngau cymdeithasol QAA. Roedd cyfranogiad yn agored i fyfyrwyr ar bob lefel a dull astudio er mwyn sicrhau sampl mor gynrychioliadol â phosibl o lais y myfyrwyr. Gofynnwyd i golegau addysg bellach enwebu myfyrwyr AB ac AU mewn AB lle bo'n berthnasol. Roedd cyn-fyfyrwyr, sydd bellach mewn rolau sabothol gyda darparydd, hefyd yn gallu cymryd rhan.

Cynigiwyd cymhellion ychwanegol i gyfranogiad ar ffurf taleb £25, ynghyd â thystysgrif cyfranogiad.

Rhwng Mawrth a Mehefin 2024, cynhaliwyd cyfres o 12 grŵp ffocws, yn cynnwys 40 o gyfranogwyr. Cynhaliwyd y rhain ar-lein, a chyda chaniatâd y cyfranogwyr fe'u recordiwyd at ddibenion trawsgrifio. Roedd pob grŵp ffocws yn para rhwng 45 munud ac awr. Roedd argaeledd cyfranogwyr yn her wrth drefnu'r grwpiau ffocws. O ganlyniad, er mwyn galluogi trafodaeth, roedd grwpiau ffocws yn tueddu i fod yn fach ac yn seiliedig ar ddull sgwrsio lled-strwythuredig.

Gofynnwyd cyfres o 14 cwestiwn i bob grŵp (gweler Atodlen 1). Cyfrannodd pob aelod o'r 12 grŵp at y trafodaethau. Roedd y grwpiau'n cynnwys cymysgedd o fyfyrwyr Lefel 3 i Lefel 7, ynghyd â nifer o swyddogion sabothol. Roedd cynrychiolaeth dda o blith myfyrwyr rhan-amser, rhyngwladol a hŷn. Mae manylion y 12 darparydd a gynrychiolir yn yr astudiaeth hon wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 - roedd y rhain yn cynnwys tri choleg AB, saith sefydliad AU a dau ddarparydd amgen. Rhoddwyd sicrwydd y byddai pob cyfranogwr yn ddienw, a dyna pam y penderfynwyd peidio â chynnwys dadansoddiad manwl fesul lefel, darparydd neu rywedd y rhai a gyfrannodd at yr adroddiad. Mae'r termau 'myfyriwr' a 'dysgwr' yn gyfnewidiadwy, p'un a yw'r cyfranogwr yn astudio rhaglen AB neu AU.

I ychwanegu elfen gymharol at yr astudiaeth, rhannwyd y cwestiynau â Grŵp Arbenigwyr Myfyrwyr Ansawdd Trydyddol (TQSEG) sparqs (partneriaethau myfyrwyr mewn ansawdd yr Alban). Trafododd TQSEG y 14 cwestiwn a rhannwyd ymateb ysgrifenedig gyda QAA. Lle bo'n berthnasol, mae eu myfyrdodau wedi'u cynnwys o dan y gwahanol themâu allweddol a amlinellir isod.

# Canfyddiadau allweddol

At ddibenion y ddogfen gryno hon, mae ymatebion y myfyrwyr i gwestiynau'r grŵp ffocws wedi'u trafod o dan bum thema allweddol, sef:

- canfyddiadau myfyrwyr o welliant
- terminoleg gwelliant myfyrwyr
- cyfleoedd myfyrwyr ar gyfer gwelliant
- ymgysylltiad myfyrwyr â gwelliant
- myfyrwyr fel partneriaid

## Canfyddiadau myfyrwyr o welliant

Yn gyffredinol, roedd yr holl fyfyrwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn teimlo bod gwelliant yn golygu '*gwneud pethau'n well*'. Yn yr un modd, roedd TQSEG yn gweld gwelliant fel '*gwneud rhywbeth yn well nag ydyw*'. Roedd rhai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn teimlo bod y term yn berthnasol i'w profiad dysgu yn unig, tra bod eraill yn teimlo bod gwelliant hefyd yn berthnasol i bob elfen o brofiad y myfyriwr:

> Mae'n gwneud ein bywyd ni, bywyd y myfyriwr, ychydig yn well, neu ei wneud cystal ag y gall fod. Ac mae'n debyg nad edrych ar yr ochr academaidd yn unig yw hyn, ond hefyd yr agwedd bywyd myfyriwr a beth arall sydd ar gael y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'n cyfeirio at brofiad cyffredinol y myfyriwr, yn academaidd ac yn gymdeithasol, yn fy marn i.

> Felly efallai bod gennym ni i gyd yn isymwybodol ryw fath o waelodlin o ran yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan sefydliad. Hynny ydy, y math o bethau y bydden ni o leiaf yn disgwyl iddyn nhw eu cyflawni, ac yna efallai mai gwelliant fyddai eu bod nhw'n cyflawni llawer mwy nag y byddech chi'n ei ddisgwyl.

Roedd pob myfyriwr yn cydnabod y gallai gwelliant gynnwys y darparydd yn ei gyfanrwydd neu fod ar lefel rhaglen neu adran. Roedd gwelliant yn aml yn cael ei ddehongli fel '*ychwanegu gwerth*' neu '*mynd y filltir ychwanegol*'.

## Sail dystiolaeth

At ddiben ei adolygiadau yng Nghymru, mae QAA yn diffinio gwelliant fel 'defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau bwriadol sydd â'r nod o wella profiad dysgu myfyrwyr.' (Llawlyfr QER, 2023). Er na chafodd y diffiniad hwn ei rannu â myfyrwyr yn y grwpiau ffocws yn fwriadol, er mwyn peidio â dylanwadu ar eu ffordd o feddwl, nododd nifer o fyfyrwyr yr angen i sicrhau bod gwelliant, os yw am fod yn effeithiol, wedi'i gynllunio ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwerthuso'n llawn. Teimlai nifer o fyfyrwyr fod angen i weithgareddau gwelliant yn aml esblygu a thyfu, ac roeddent yn credu bod natur ddigymell a chreadigrwydd hefyd yn bwysig yn hynny o beth. Teimlai pawb yn gryf fod newidiadau neu ddatblygiadau bach yn aml yr un mor arwyddocaol ac mor effeithiol â mentrau gwelliant ar raddfa fwy, a chydnabuwyd y gall newidiadau bach yn aml gyfrannu at ddatblygiadau ehangach. Roedd sawl cyfranogwr yn cydnabod y gall newid sefydliadol ar raddfa sylweddol yn aml fod yn anodd ei weithredu.

> 'Felly, mae'n ymwneud â dynodi problem, gwrando ar y bobl sy'n dweud eu bod wedi dod o hyd i'r broblem a gwneud y gorau i fynd i'r afael â hyn mewn unrhyw ffordd bosibl. Mae angen i sefydliadau edrych ar ddatblygiadau mawr a bach yn hyn o beth. Gallant fynd ati i gynllunio, ond credaf na ddylent deimlo'r angen i gadw at y cynllun. Dylent fod yn ddewr ac efallai dweud: "iawn, gadewch i ni herio hyn, gadewch i ni wella hyn", y math yna o beth.'

Mynegodd TQSEG deimladau tebyg. Er bod y Grŵp yn ystyried bod gwelliant yn rhywbeth a oedd yn ymwneud ag ymddygiadau bwriadol, roeddent yn teimlo y gallai gynnwys datblygiadau mwy digymell ac organig unwaith y bydd y diwylliant o welliant wedi'i wreiddio. Yn yr un modd, roeddent o'r farn na ddylid gwahaniaethu rhwng newidiadau ar raddfa fawr a newidiadau bach, yn yr ystyr y gallai rhywbeth sy'n ymddangos yn fân newid, gael effaith sylweddol ar brofiad myfyriwr.



## Enghreifftiau o welliant yn seiliedig ar raglenni

Darparodd myfyrwyr yn y grwpiau ffocws sawl enghraifft o'u profiad eu hunain i amlygu eu gweledigaeth a'u profiad o welliant. Roedd cynwysoldeb yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol o unrhyw weithgarwch gwelliant, yn ogystal â chyfathrebu effeithiol. Roedd llawer o'r enghreifftiau a grybwyllwyd yn ymwneud â chyfleoedd dysgu hyblyg o fewn rhaglenni – er enghraifft, cyfeiriodd myfyrwyr AB ac AU at newidiadau yn yr amserlen ac at ychwanegu cyfleoedd dysgu cyfunol, a oedd wedi eu galluogi i astudio ar adegau a oedd yn fwy cyfleus iddynt oherwydd pwysau ac ymrwymiadau eraill. Yn aml, gwelwyd tystiolaeth o adnoddau ychwanegol a chyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith oedd yn gysylltiedig â rhaglenni hefyd fel enghreifftiau o welliant a oedd yn arbennig o fuddiol iddynt hwy, fel unigolion:

> ‘Mae gennym ni lyfrgell dechnegol ddigidol, sydd yn y bôn yn golygu, os nad ydych chi'n siŵr sut i osod sip neu fotwm, mae yna fideos y gallwch chi eu gwylio. Felly gallwn fynd yn ôl unrhyw bryd. Mae rhai aelodau staff wedi cymryd amser o'u bywydau personol i adeiladu'r system a hwyluso pethau i ni.’

Roedd mentrau gwelliant ar lefel rhaglen, a ysgogwyd gan eu darlithwyr, yn arbennig o bwysig i'r mwyafrif o'r rhai a fynychodd y grwpiau ffocws, ac roedd mentrau o'r fath yn crynhoi gwir ystyr gwelliant i lawer o'r cyfranogwyr:

> ‘Mae gwelliant yn ymwneud â'r bobl, y staff, a'r pethau bach y mae'r staff yn eu gwneud i'n cefnogi ni. Yn y bon, mae'n ymwneud â'n tiwtoriaid ni; sut maen nhw'n gwrando arnom ni, pa mor hawdd yw siarad â nhw, sut maen nhw i gyd yn wirioneddol hyblyg pan fyddwn ni'n meddwl am ffyrdd y gallen nhw gwella pethau.’

## Enghreifftiau sefydliadol o welliant

Roedd enghreifftiau o ddatblygiadau strategol sefydliadol ehangach â'r nod o wella profiad myfyrwyr yn llawer mwy cyfyngedig. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws sylwadau cadarnhaol ynghylch y mecanweithiau cymorth myfyrwyr canolog sydd ar waith yn eu darparydd, a rhoddwyd manylion ynghylch sut yr oeddent wedi gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn gyda chymorth staff. Teimlai nifer fach o fyfyrwyr rhyngwladol fod eu profiad myfyrwyr wedi gwella o ganlyniad i drefniadau talu ffioedd tecach diweddar, a ddaeth yn sgil lobïo gan eu swyddogion undeb myfyrwyr.

Mae'r enghraifft hon o gydraddoldeb mewn perthynas â mecanweithiau talu ffioedd yn adleisio barn TQSEG yn eu hymateb ysgrifenedig. Dywedodd TQSEG er mwyn i newid sefydliadol ddigwydd, mae angen i hynny fod yn sgil '*materion mawr*' y mae myfyrwyr ar draws y darparydd yn teimlo'n gryf yn eu cylch. Er mwyn i newidiadau gael eu gwneud yn nhermau materion o'r fath, awgrymwyd bod angen arweinyddiaeth gref ar fyfyrwyr, megis swyddog undeb myfyrwyr rhagweithiol sy'n llywio'r newid.

# Terminoleg gwelliant myfyrwyr

Wrth drafod eu diffiniadau o welliant, bu'r grwpiau ffocws hefyd yn ystyried pa eiriau a ddefnyddir yn gyffredinol gan eu darparydd i ddisgrifio '*gwneud pethau'n well*'.

## Gwelliant

Roedd myfyrwyr AU yn gyffredinol yn gyfarwydd â'r term 'gwelliant' ond nid oeddent yn tueddu i'w ddefnyddio'n aml iawn eu hunain. Roedd y rhai mewn AB, fodd bynnag, yn llawer mwy cyfarwydd â'r gair 'gwella' yn y cyd-destun hwn:

> ‘Byddwn i'n dweud bod gwelliant yn swnio'n gadarnhaol. Mae gwella'n swnio ychydig yn fwy negyddol.’

> ‘I mi, mae gwelliant yn golygu, sut allwn ni wneud rhywbeth sydd eisoes yn dda yn well. Mae gwella'n awgrymu bod yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yn wael.’

Mae’r sylwadau hyn gan fyfyrwyr yn cyd-fynd â Williams (2016) sy’n nodi:

> ‘ *Mae’r defnydd o’r geiriau “gwella” a “gwelliant” yn aml yn gyfnewidiadwy, ond defnyddir y termau yn aml mewn ffyrdd cynnil gwahanol. Defnyddir gwella yn aml i gyfeirio at broses o ddod â gweithgaredd i fyny i safon, tra bod gwelliant yn ymwneud â’i godi i lefel uwch, ei ddwysáu, neu ei gynyddu.* ’

Wrth ystyried safoni termau, o dan sector trydyddol mwy integredig, gwnaeth un myfyriwr AB sylw diddorol:

> ‘ Rwy’n meddwl efallai bod gwelliant yn air anodd i rai pobl ifanc sy’n dod i’r coleg yn syth o’r ysgol. Dydw i ddim yn siŵr a fyddent yn gwybod yn union beth rydych yn sôn amdano pan fyddech chi’n defnyddio’r gair. Felly, mae’n debyg mai dyma’r gair gorau, ond rwy’n meddwl ei fod yn fwy agored i’w ddehongli gan fyfyrwyr iau. ’

Roedd lleiafrif o fyfyrwyr AU hefyd yn cydnabod hyn, gydag un unigolyn yn ystyried gwelliant yn ‘*derm llithrig*’, tra teimlai un arall ei fod yn ‘*air ffasiynol*’. Roedd sawl un o’r farn bod gorddefnydd o’r ymadrodd ‘gwella profiad myfyrwyr’, weithiau’n tueddu i arwain at ddod yn ‘*dipyn o yn gimic ac yn ddiystyr*’.



## Cyfoethogi

Nododd nifer o swyddogion myfyrwyr yn y grwpiau ffocws eu bod yn gyfarwydd â'r term 'cyfoethogi', er eu bod yn cydnabod nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn dogfennau ar gyfer myfyrwyr. Roedd lleiafrif o'r farn ei fod yn golygu'r un peth â gwelliant, er bod y rhan fwyaf yn ystyried ei fod yn golygu cryfhau profiad myfyrwyr trwy wahanol weithgareddau yn hytrach nag agweddau academaidd yn unig. Roedd myfyrwyr AB, yn gyffredinol, yn fwy cyfarwydd â'r term na myfyrwyr AU a chyfeiriwyd at enghreifftiau, megis teithiau i adeiladau hanesyddol a siaradwyr gwadd o ddiwydiant.

Roedd myfyrwyr eraill yn y grwpiau ffocws yn anghyfarwydd â'r term 'cyfoethogi' ac nid oedd aelodau'r TQSEG ychwaith wedi'i glywed yn cael ei ddefnyddio gan eu darlithwyr nac unrhyw aelodau eraill o staff yn eu prifysgolion yn yr Alban. Trafodwyr yr hyn y gallai ei olygu, ac roeddent yn teimlo'n gyffredinol ei fod yn cyfeirio at weithgareddau'r tu allan i'r cwricwlwm a'r profiad academaidd. Gwnaeth un aelod o grŵp ffocws AU y sylw a ganlyn:

> 'Rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai diffiniadau o'r termau hyn yn gliriach, yn cael eu hysbysebu ychydig yn fwy fel ein bod yn gwybod yn union beth mae sefydliad yn ei olygu pan fyddant yn defnyddio'r termau hyn.'

## Cyfleoedd myfyrwyr ar gyfer gwelliant

Roedd yr holl fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws yn gadarnhaol iawn ynghylch yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael iddynt gyfrannu at wella eu darpariaeth ac yn teimlo'n gyffredinol bod y darparwyr yn awyddus i wrando ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud, yn enwedig ar lefel ysgol neu adran, fel y gallai unrhyw anawsterau gael eu datrys gobeithio.

> 'Rwy'n meddwl, o ran gwelliant, bod y brifysgol yn agored i glywed adborth, sy'n bwysig iawn yn fy marn i, oherwydd yr unig ffordd y gall gwelliant ddigwydd yw os yw pobl mewn swyddi uwch yn fodlon gwrando. Ac os ydyn nhw'n meddwl bod yna rywbeth sy'n ofynnol gan y brifysgol, bydd y staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i geisio gweithredu'r newid hwnnw.'

> 'Mae'r ffordd y mae llawer o'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n wirioneddol ar y myfyrwyr a'r hyn sydd gan y myfyrwyr i'w ddweud yn beth cadarnhaol iawn.'

Codwyd nifer o fecanweithiau llais myfyrwyr gan y grwpiau, gan gynnwys:

- cynrychiolwyr rhaglen/ysgol
- trafodaethau anffurfiol a deialog gyda staff
- adborth dienw ar-lein
- holiaduron modiwl.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar effeithiolrwydd y mecanweithiau hyn, gan gynnwys a oedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau neu welliannau o ganlyniad i unrhyw fewnbwn ganddynt. Nododd rhai myfyrwyr AU hefyd eu bod yn cael eu cynrychioli ar bwyllgorau allweddol y brifysgol, er ei bod yn ymddangos bod amrywiad bach rhwng darparwyr o ran pa bwyllgorau oedd yn cynnwys cynrychiolydd myfyrwyr. Roedd aelodau'r grwpiau ffocws a TQSEG o'r farn bod pwyllgorau swyddogol o'r math yma, ar y cyfan yn ysgogi gwelliant ar lefel darparydd, tra bod cynrychiolwyr rhaglen yn cefnogi gwelliant ar lefel cyfadran.

## Cynrychiolwyr rhaglen/ysgol

Roedd gan bob myfyriwr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws unigolyn oedd yn cynrychioli eu rhaglen mewn cyfarfodydd ar lefel ysgol neu adran. Wedi dweud hynny, roedd y system cynrychiolwyr myfyrwyr yn ymddangos yn fwy datblygedig a strwythuredig mewn rhai darparwyr, gydag un grŵp o fyfyrwyr AB yn nodi mai hon oedd eu blwyddyn gyntaf o fod â chynrychiolwyr dosbarth ffurfiol, a oedd yn ddatblygiad o drafodaethau dosbarth mwy anffurfiol mewn blynyddoedd blaenorol. Dywedodd myfyriwr AU mewn grŵp arall eu bod yn teimlo bod y system yn eu darparydd '*ar hap a damwain*', a bod anghysondeb yn y gynrychiolaeth ar draws y rhaglenni.

Roedd mecanweithiau ar gyfer adrodd llais y myfyriwr yn naturiol yn amrywio ychydig ar draws darparwyr, gyda rhai unigolion yn cyfeirio at gynrychiolwyr rhaglen a chynrychiolwyr ysgolion, tra bod gan sefydliad arall gynllun hyrwyddwr myfyrwyr hefyd, lle'r oedd myfyrwyr yn cael y cyfle i ymgymryd â rôl llais myfyriwr gyflogedig am nifer fach o oriau'r mis. Ym mhob achos, roedd AU mewn AB yn cael cefnogaeth gan gynrychiolydd myfyrwyr penodol, a gwnaeth nifer o fyfyrwyr sylwadau cadarnhaol ar hyn. Roedd lleiafrif o fyfyrwyr ar draws mwy nag un darparydd o'r farn nad oedd cynrychiolwyr rhaglenni neu ysgolion weithiau'n ddigon gweladwy, a oedd yn golygu nad oeddent yn gwybod at bwy i droi gyda phryderon penodol. Awgrymodd unigolion o un coleg hefyd y byddai arwydd cliriach o'r ymrwymiad amser a disgwyliadau'r rôl yn helpu i ffurfioli'r rôl:

> ‘Gallwch chi ddweud unrhyw beth rydych chi ei eisiau, ond nid yw fel petai ar gael ar ddiwedd pob wythnos, neu ddiwedd pob mis neu ddiwedd pob tymor. Felly mae disgwyl i chi fynd ato, sy'n iawn, ond mae'n hynod o brysur. Ac mae e ar gwrs arall ar wahân i'r cwrs yma; mae e'n gweithio, ac mae ganddo deulu. Felly rwy'n meddwl y dylai rôl cynrychiolydd y myfyrwyr fod yn fwy strwythuredig, fel ein bod ni i gyd yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir.’

Roedd nifer o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau yn gynrychiolwyr myfyrwyr eu hunain, ac aethant ati i amlinellu pam y bu iddynt ymgymryd â'r rôl a sut roeddent yn casglu adborth. Roeddent yn ymddangos yn llawn cymhelliant, ac roeddent yn gweld y rôl fel ffordd gadarnhaol ac effeithiol o sicrhau gwelliant a newid ar lefel rhaglen, yn ogystal â galluogi cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol. Roedd nifer yn cydnabod, fodd bynnag, y gallai cael adborth gan fyfyrwyr eraill fod yn heriol yn aml, fel y gwnaeth TQSEG yn eu hymateb ysgrifenedig. Nododd nifer o gynrychiolwyr rhaglen/ysgol o ddarparwyr yng Nghymru eu bod wedi creu grwpiau WhatsApp, neu sianeli Microsoft Teams penodol, fel ffordd o gael adborth, tra bod eraill, yn dibynnu ar faint y garfan, wedi dewis siarad yn uniongyrchol â'u cyfoedion ar raglen. Soniodd myfyriwr arall am lwyddiant grwpiau ffocws fel ffordd o gael adborth yn gyflym, gan alluogi gweithredu prydlon:

> ‘Mae grwpiau ffocws wedi bod yn effeithiol iawn trwy fy ngwaith fel hyrwyddwr myfyrwyr. Gallwch fod ag ystod amrywiol iawn o fyfyrwyr o lawer o wahanol gyrsiau a chefndiroedd yn cynrychioli gwahanol grwpiau cymdeithasol, a gallwn gael llawer o safbwyntiau ar un mater neu un maes, i gyd ar yr un pryd. Ac rwy'n meddwl bod hyn yn drefniant mwy cyfforddus o gymharu â chyfarfod.’

## Trafodaethau anffurfiol a deialog gyda staff

Er bod nifer o fyfyrwyr wedi nodi eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd ag unrhyw bryderon neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant at gynrychiolydd rhaglen neu ysgol, pwysleisiodd y rhai ar lefel AB yn arbennig eu perthynas â'u tiwtoriaid a manteision deialog anffurfiol. Roeddent yn gweld eu tiwtor fel y pwynt cyswllt cyntaf wrth geisio gwella eu profiad dysgu neu ddatrys problem benodol, gyda'u tiwtor yn brif ysgogydd newid:

> ‘Byddwn i'n dweud mai'r tiwtoriaid yw'r peth mwyaf i ni; heb eu cefnogaeth nhw, bydden ni ar goll o fewn y coleg. Gallwn fynd yn syth atyn nhw, ac os oes angen i ni newid rhywbeth, fe wnân nhw hynny os ydyn nhw'n gallu.’

> ‘Oherwydd y berthynas sydd gennym ni gyda'r athrawon, rydyn ni'n mynd yn syth atyn nhw pan rydyn ni angen help, yn hytrach nag aros am gyfarfod i ddatrys pethau.’

## Adborth electronig dienw

Nododd sawl myfyriwr, yn enwedig y rhai mewn AU, y gallent ddarparu adborth electronig trwy ystod o apiau megis *Padlet*. Eglurodd un cynrychiolydd myfyrwyr mai rhan o'u rôl yw sicrhau bod unrhyw adborth ar-lein wedyn yn cael ei uwchgyfeirio i'r unigolyn neu'r swyddfa briodol. Mae gan ddarparydd arall godau QR wedi'u lleoli mewn amryw o leoliadau gan gynnwys y llyfrgell a'r caffis, a thynnir sylw at y rhain yn aml ar ddechrau darlithoedd. Gwnaeth llawer o fyfyrwyr sylwadau cadarnhaol ar natur gynhwysol adborth dienw ar-lein, oherwydd gallai unrhyw fyfyriwr gyflwyno sylwadau, pryderon ac awgrymiadau ar unrhyw adeg. Roedd lleiafrif, fodd bynnag, yn teimlo y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o arweiniad a chymorth o ran sut i ddefnyddio'r gwahanol gyfleoedd ar gyfer adborth ar-lein sydd ar gael trwy eu darparydd.

## Holiaduron modiwl

Siaradodd llawer o fyfyrwyr AB ac AU mewn manylder am eu holiaduron modiwl rheolaidd. Roeddent yn teimlo bod y rhain yn aml yn effeithiol, yn yr ystyr bod materion ar lefel ysgol neu raglen a godwyd yma, yn cael eu datrys yn gyflym iawn ar y cyfan.

> 'Ar ddiwedd pob hanner-tymor, rydym yn rhoi adborth ar wella modiwlau ar-lein. Dyna'n union y geiriad y maent yn ei ddefnyddio. Felly gofynnir i bob myfyriwr gwblhau'r adborth hanner ffordd trwy'r tymor ac ar ddiwedd y tymor. Fel y gellir datrys pethau cyn i'r modiwl ddod i ben.'

Roedd rhai'n teimlo'n fwy cyfforddus yn rhoi adborth ar-lein gan eu bod yn teimlo y gallent fod yn fwy gonest ac agored trwy fecanwaith dienw. Roedd yna gydnabyddiaeth, serch hynny, fod ymwneud â holiaduron modiwl ar-lein yn aml yn siomedig, ac roedd rhai yn gweld budd mewn holiaduron yn yr ystafell ddosbarth o safbwynt darparydd:

> 'Maen nhw'n awyddus iawn i gael adborth ar ddiwedd modiwl unigol; maen nhw'n dosbarthu holiaduron yn y dosbarth, ac mae'n ofynnol i chi eu cwblhau cyn i chi adael. Ac maen nhw'n eich annog i fod yn agored ac yn onest am yr hyn a aeth yn dda. Maen nhw'n gofyn beth rydych chi'n meddwl y gallen nhw wella arno, a beth wnaethoch chi ei fwynhau neu beth wnaethoch chi ei fwynhau leiaf.'

## Cau'r ddolen

Teimlai'r mwyafrif o'r rhai a fynychodd y grwpiau ffocws fod eu hysgol neu adran wedi cyfathrebu'n effeithiol unrhyw welliannau a weithredwyd o ganlyniad i adborth myfyrwyr, yn ogystal ag egluro pam na ellid bwrw ymlaen â rhai pwyntiau a godwyd:

> Maen nhw'n anfon llythyrau wythnosol trwy e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn sydd wedi digwydd, unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud, hyd yn oed os yw ar gyfer campws cwbl wahanol. Maen nhw'n dda iawn am ddweud wrthym beth sy'n digwydd a'n cadw ni'n gyfoes â datblygiadau.

Mae e-bost yn ddull poblogaidd o gyfathrebu, er bod nifer o fyfyrwyr hefyd wedi nodi bod amgylchedd dysgu rhithwir (ADRh) y brifysgol neu'r coleg hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu diweddariadau. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr bwyllgorau ymgynghorol staff-myfyrwyr neu debyg sy'n cwrdd bob tymor, ac mae cofnodion ffurfiol y rhain hefyd yn cael eu gosod ar ADRh y darparydd. Roedd sawl cynrychiolydd myfyrwyr yn cydnabod na fyddai pob myfyriwr o reidrwydd yn gwybod ble i chwilio am ddiweddariadau fel y rhain gan ysgol neu adran, nac yn darllen eu negeseuon e-bost yn fanwl. Felly, fel rhan o'u rôl fel cynrychiolwyr myfyrwyr, maent hefyd yn lledaenu unrhyw adborth fel modd o wella a chryfhau'r broses adborth. Fodd bynnag, teimlai lleiafrif o swyddogion myfyrwyr o fwy nag un darparydd nad oedd undeb y myfyrwyr bob amser yn cael gwybod sut y gweithredwyd ar bryderon o fewn ysgol neu adran, a theimlent y gellid cryfhau'r elfen hon yn y ddolen adborth.

Awgrymodd un myfyriwr hefyd y gellid gwneud mwy yn y sesiynau addysgu eu hunain o ran sut yr oedd llais y dysgwr wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu profiad academaidd:

> Oherwydd mai dim ond unwaith y byddwch chi'n gwneud pob modiwl, dydw i ddim yn meddwl ei bod hi bob amser mor amlwg â hynny os yw'r staff wedi newid rhywbeth, oherwydd dyma'r tro cyntaf i chi wneud y modiwl. Felly, pe bai myfyrwyr yn cael gwybod bod yr holl arweinwyr cwrs a thiwtoriaid wedi gweithio'n galed iawn i gyrraedd y pwynt hwn, byddent wir yn gwerthfawrogi hynny. Mae'n dangos eu bod nhw'n ceisio dal ati i wella pethau.

## Ymgysylltiad myfyrwyr â gwelliant

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, canfu cynrychiolwyr myfyrwyr fod cael myfyrwyr eraill i ymgysylltu â mentrau llais myfyrwyr mewnol yn aml yn anodd, er bod cymhellion ariannol yn cael eu hystyried yn atyniad pendant mewn perthynas â mentrau datblygu mawr gan gynnwys dilysu rhaglenni, ynghyd â chyfleoedd gwelliant allanol eraill. Roedd TQSEG hefyd yn teimlo y dylai myfyrwyr gael eu talu am amser sylweddol a dreulir ar waith gwelliant, er iddynt nodi mai dim ond un rheswm pam y mae myfyrwyr yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yw cymhellion ariannol. Roedd consensws cyffredinol ymhlith y grwpiau ffocws mai diffyg amser, yn hytrach na diffyg diddordeb, yn aml oedd y prif rwystr i gyfranogiad mewn mecanweithiau llais y myfyriwr, er gwaethaf y cyfleoedd adborth amrywiol a hyblyg sydd ar gael yn y rhan fwyaf o ddarparwyr:

> ‘Unwaith y bydd myfyrwyr yn gadael y campws ar ddydd Iau, maen nhw'n ôl yn yr un hen drefn, yn ceisio sicrhau eu bod yn gallu cyflawni popeth. Ac weithiau mae ceisio dod o hyd i awr rydd yn amhosibl. Felly, beichiau bywyd sy'n gyfrifol am hyn, yn hytrach na bod pobl ddim eisiau ymwneud â'r cyfle.’

> ‘Rwy'n meddwl bod pobl yn brysur ac mae yna wastad nifer fach o fyfyrwyr sy'n cwyno'n gyson am bopeth, a dydyn nhw ddim yn cynnig atebion mewn gwirionedd.’

Soniodd nifer o aelodau'r grwpiau ffocws am yr effaith a gafodd ansawdd y profiad dysgu ar eu cymhelliant i gymryd rhan mewn gwelliant. Teimlai amryw os oedd ansawdd yr addysgu'n '*dda*,' yna roedd hyn yn eu hannog i ymgysylltu, oherwydd eu bod am helpu eu darlithwyr i '*wneud pethau hyd yn oed yn well*'. Daeth yr ymdeimlad hwn o berthyn, a chyfoethogi eu cymuned trwy weithio gyda'u darlithwyr, i'r amlwg mewn sawl grŵp, waeth beth fo lefel y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr yn teimlo'n fwy ar wahân i'w hysgol neu adran os oedd ansawdd y ddarpariaeth yn '*siomedig*' neu'n '*anhrefnus*'. Roedd lleiafrif o fyfyrwyr AU o'r farn y gellid gwneud mwy o'r system tiwtor personol fel modd o annog ymwneud â gwelliant a meithrin ymdeimlad o berthyn - yn enwedig mewn meysydd pwnc gyda llai o weithgareddau grŵp, megis teithiau maes neu waith labordy, a all helpu i feithrin ymdeimlad o undod a chymuned.



## Swyddogion myfyrwyr

Er bod myfyrwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar ymgysylltu ar lefel rhaglen neu ddisgyblaeth, roedd swyddogion myfyrwyr yn naturiol yn pwysleisio effaith a deilliannau sy'n gysylltiedig â mentrau strategol mwy, oherwydd eu cyfranogiad strategol mewn gweithgareddau o'r fath. Roedd eu sylwadau'n debyg i'r rhai a godwyd gan TQSEG a nododd na fydd myfyrwyr yn ymgysylltu oni bai eu bod yn gweld gwerth mewn gwneud hynny. Mae'r sylw isod gan un swyddog myfyrwyr yn crynhoi barn swyddogion eraill a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws:

> ‘Yn ôl fy mhrofiad i, mae llawer o fyfyrwyr yn hoffi cyfranogi mewn meysydd lle gallant weld deilliannau eu hymdrechion. Felly'r rhan fwyaf o'r amser, os ydych chi'n gweithio ar brosiect sy'n para tair blynedd, mae myfyrwyr yn dweud, “Dydw i ddim yn mynd i fod yno, felly beth yw'r pwynt i mi gyfrannu?”. Ond wedyn pe baem yn dweud wrthyn nhw ein bod am roi rhywbeth ar waith mewn tair wythnos, mae'n debygol y byddem yn cael mwy o gyfranogiad.’

Roedd swyddogion myfyrwyr hefyd yn teimlo bod angen gwneud mwy i sicrhau bod grwpiau ehangach o fyfyrwyr yn ymwybodol o effaith mentrau strategol mwy a gynhelir gan ddarparwyr, gan y byddai hyn, gobeithio, yn annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau gwelliant yn y dyfodol:

> ‘Efallai pe bai'n bosib i'r brifysgol weithredu system lle gallai myfyrwyr wir weld sut mae mentrau wedi bod o fudd i'r brifysgol, byddai mwy o fyfyrwyr yn ymwneud â'r mentrau hynny. Felly, er enghraifft, gadewch i ni ddweud mai'r nod yw cynyddu amrywioldeb. Efallai ymhen ychydig fisoedd, os yw hyn wedi digwydd, y gallai'r brifysgol ddarparu ystadegau ar faint o fyfyrwyr rhyngwladol newydd sydd wedi'u derbyn. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n annog myfyrwyr i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwelliant, oherwydd eu bod yn gallu gweld yr effaith. Yn aml nid yw canlyniadau datblygiadau mawr yn cael eu rhannu â'r myfyrwyr i gyd. Weithiau mae gormod yn cael ei gymryd yn ganiataol.’

## Myfyrwyr fel partneriaid

Mae'n ymddangos bod myfyrwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth 'yn elfen allweddol o wella'r profiad dysgu yn llwyddiannus' (Millard et al, 2013). Daeth hyn yn amlwg iawn yn ymateb ysgrifenedig TQSEG. Mae model partneriaeth yn awgrymu bod barn pawb yn werthfawr ac yn cael ystyriaeth briodol. Fel y pwysleisiwyd gan Gravett et al (2019), mae partneriaeth yn awgrymu trin myfyrwyr 'fel mwy na chwsmeriaid'.

Roedd gan y myfyrwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws farn gymysg am y cysyniad o fyfyrwyr fel partneriaid, gyda barn yn amrywio ychydig ymhlith carfannau gwahanol o unigolion yn dibynnu ar eu profiadau.

### Swyddogion myfyrwyr a chynrychiolwyr rhaglenni

Roedd swyddogion myfyrwyr a chynrychiolwyr rhaglenni neu ysgolion yn y sefydliadau AU - oherwydd eu hymwneud ehangach â gwella profiad myfyrwyr trwy bwyllgorau swyddogol a mecanweithiau eraill - yn teimlo'n gryf ar y cyfan bod myfyrwyr yn cael eu gweld fel partneriaid cyfartal. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, roeddent hefyd yn ymwybodol iawn o'r her ehangach sy'n perthyn i ymgysylltiad myfyrwyr a oedd weithiau'n rhwystro cydweithio, ar lefel ysgol a darparydd.

> “Rydyn ni'n bartneriaid oherwydd rydyn ni'n cael ein trin yn gyfartal mewn unrhyw sgwrs. Ac yn aml iawn, wyddoch chi, bydd cydbwysedd teg rhwng nifer yr academyddion sy'n bresennol mewn cyfarfod a nifer y myfyrwyr. Mae hefyd wedi'i wneud yn amlwg i gymuned gyfan y brifysgol eu bod yn gwerthfawrogi myfyrwyr yn gyfartal ag academyddion.”

Teimlai rhai, fodd bynnag, fod y model partneriaeth hwn yn bennaf gyda'r staff addysgu:

> “Rwy'n teimlo bod gennym ni bartneriaeth dda gyda'r darlithwyr, ac mae gennym ni lais cyfartal mewn pethau, ond fyddwn i ddim yn dweud bod partneriaeth o'r fath yn bodoli gyda'r rheolwyr bob tro. Weithiau mae biwrocratiaeth a phryderon ariannol yn rhwystr, ac rydych chi'n teimlo eich bod chi'n bwrw eich pen yn erbyn wal.”

## Corff ehangach y myfyrwyr

Dywedodd llawer o fyfyrwyr AB ac AU, heb rolau llais myfyriwr penodol, eu bod yn cael eu trin fel '*cyfartal*', ac mai eu '*buddiannau hwy oedd wrth galon amcanion*' y darparydd. Wedi dweud hynny, roedd y rhan fwyaf yn llai sicr o ystyr a dilysrwydd yr ymadrodd 'myfyrwyr fel partneriaid', gyda lleiafrif o unigolion yn teimlo bod ffioedd uchel yn ategu'r syniad o fyfyrwyr fel cleientiaid neu gwsmeriaid:

> 'Oherwydd bod myfyrwyr yn talu cymaint, maen nhw'n mynnu ychydig yn fwy. Rwy'n meddwl bod myfyrwyr a staff yn cydweithredu â'i gilydd, ond wrth reswm mae eu rolau'n wahanol iawn. Yn amlwg, maen nhw eisiau adborth gennym ni oherwydd maen nhw eisiau i ni wneud yn dda, ond maen nhw hefyd eisiau i'w sefydliad wneud yn dda. Felly, dwi'n credu bod yna gydweithredu, ond dydw i ddim yn meddwl y byddwn yn defnyddio'r gair partneriaeth.

Mewn rhai achosion, dylanwadodd maint carfan y rhaglen ar ganfyddiadau myfyrwyr o'u perthynas â'u darparydd. Dywedodd sawl un oedd â phrofiad o fwy nag un rhaglen neu ysgol, fod carfannau llai yn golygu eu bod yn dod i adnabod eu darlithwyr yn well ac felly eu bod yn aml yn teimlo'n '*fwy cyfartal*' o ganlyniad i hynny. Roedd natur y rhaglen hefyd yn dylanwadu ar ymagwedd unigolion, fel y nodir gan y dyfyniad canlynol gan fyfyriwr hŷn ar raglen ran-amser:

> Dydw i ddim yn teimlo ei fod yn bartneriaeth, nid oherwydd unrhyw beth y mae'r coleg yn ei wneud neu ddim yn ei wneud. Rwy'n teimlo nad oes digon o amser; rydyn ni'n mynychu un diwrnod yr wythnos, rydyn ni'n cyrraedd, yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol ac yna rydyn ni'n gadael. Dyna'r math o gwrs ydy e, ac mae'n brofiad gwahanol. Rwy'n meddwl mai dyna ydyw. Nid partneriaeth mohoni.


Roedd llawer mwy o amrywiad yn yr ymatebion yma, nag mewn perthynas â'r themâu allweddol eraill yr ymdriniwyd â hwy. Ystyrir yr amrywiad hwn, ynghyd â phwyntiau arwyddocaol eraill sy'n codi o'r grwpiau ffocws, ymhellach o dan yr adran nesaf.



# Trafodaeth a chasgliadau

Bu'r grwpiau ffocws, a welir uchod, yn fecanwaith ffrwythlon ar gyfer casglu barn unigolion sy'n ymgymryd ag ystod o raglenni llawn-amser a rhan-amser mewn AU ac AB yng Nghymru, gyda chefnogaeth sampl fach yn yr Alban. Roedd llawer o'u diffiniadau o welliant yn debyg i'w gilydd, fel y dangoswyd gan y gwahanol enghreifftiau personol o welliant a gynigiwyd, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau dysgu'r myfyrwyr. Wedi dweud hynny, mae'r ffaith bod rhai'n teimlo bod gwelliant yn ymwneud â'u profiad academaidd yn unig, tra bod eraill yn dehongli gwelliant yn ehangach, yn dangos bod lle i ddatblygu ymhellach ddiwylliant o welliant parhaus ar draws y sector trydyddol – sy'n cefnogi dehongliad a gweledigaeth glir o welliant sy'n gyfarwydd i bawb. Yn y cyd-destun hwn, mae'r dystiolaeth o'r grwpiau ffocws hefyd yn awgrymu y dylid ystyried y derminoleg sy'n ymwneud â gwelliant, a thrwy hynny sicrhau dull cyson ar draws AB ac AU.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob darparydd ystod eang a hygyrch o fecanweithiau llais myfyrwyr ar waith, ac roedd yn galonogol clywed bod pawb a gymerodd ran yn y prosiect hwn yn teimlo eu bod wedi cael nifer o gyfleoedd amrywiol i gyflwyno eu syniadau a'u hawgrymiadau i'w darparydd. Mae eu hymatebion yn cyd-fynd â chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) diweddaraf (2024), yn seiliedig ar ymatebion israddedigion blwyddyn olaf mewn addysg uwch. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod Cymru uwchlaw mesur positifrwydd cyfartalog y DU o 74% ar gyfer Llais Myfyrwyr, a'r gryfaf o'r pedair gwlad gyda 75.8%. Mae'n ymddangos bod gan rai o'r darparwyr yng Nghymru fecanweithiau mwy sefydledig ar waith nag eraill, ond gyda'r ffocws cynyddol ar gydweithio ar draws y sector, wrth symud ymlaen, y gobaith yw y bydd mwy o gyfleoedd i rannu arfer da a syniadau ynghylch llais y dysgwr ac ymgysylltiad myfyrwyr, gan gryfhau canlyniad ACF Cymru ymhellach. Erys y potensial ar gyfer ymagwedd fwy cyson a chynhwysol at lais y myfyriwr, tra hefyd yn cydnabod natur unigol a ffocws y gwahanol ddarparwyr yn y sector trydyddol, ac ehangder y ddarpariaeth ddysgu sydd ar gael. Mae cynrychiolwyr rhaglenni rhagweithiol, er enghraifft, yn aml yn gwneud llawer i gefnogi'r agenda gwelliant, ond efallai y bydd cyfleoedd i gynorthwyol eu hymglymiad ymhellach mewn rhai darparwyr, tra hefyd yn annog recriwtio a diffinio disgwyliadau, trwy ddarparu disgrifyddion rôl clir. Fel y nodwyd gan TQSEG:



Un pwynt a ddaeth i'r amlwg o'r grwpiau ffocws ac a godwyd hefyd mewn rhai cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid, megis UCM Cymru, yw nad yw myfyrwyr yn aml yn teimlo bod ganddynt yr amser i gymryd rhan mewn mentrau gwelliant, oherwydd ymrwymiadau personol a/neu waith. Un elfen yn unig o'u bywydau prysur yw eu hastudiaethau'n aml. Mae angen ystyried natur y gymuned myfyrwyr sy'n esblygu a thwf modelau rhan-amser neu ddwys anhraddodiadol yn ofalus wrth ddatblygu mecanweithiau adborth a mentrau gwelliant sy'n ysgogi ansawdd ar lefel darparydd.

Ynghyd â chyfyngiadau amser, roedd effaith yn amlwg iawn yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws ar ymgysylltu, fel yr awgrymwyd gan rai o'r dyfyniadau blaenorol gan fyfyrwyr. Weithiau mae adborth llais myfyrwyr, yn enwedig ar lefel ysgol neu adran, yn naturiol yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor byr neu ganolig. Fodd bynnag, teimlai nifer o fyfyrwyr y byddai'n werthfawr pe bai darparwyr yn codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y corff myfyrwyr o effaith hirdymor mentrau gwelliant llwyddiannus a ysgogir gan fyfyrwyr - p'un a ydynt yn strategol neu'n weithredol eu natur. Efallai y bydd rhai darparwyr am ystyried hyn ymhellach fel ffordd o gryfhau ymgysylltiad dysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio i rolau myfyrwyr sy'n canolbwyntio ar welliant. Fel y nodwyd gan TQSEG, mae myfyrwyr eraill hefyd yn fwy tebygol o ymgysylltu os gallant weld unigolion 'tebyg iddyn nhw' mewn rolau allweddol.

Yn olaf, un agwedd a esgorodd ar nifer o safbwyntiau gwahanol oedd y cwestiwn ynghylch 'myfyrwyr fel partneriaid'. Er bod y mwyafrif yn y grwpiau ffocws yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn gyfartal, roedd myfyrwyr cyffredin, yn hytrach na'r swyddogion myfyrwyr, yn llai tebygol o ystyried y berthynas â'u darparydd yn nhermau partneriaeth, fel y nodwyd yn flaenorol. Mae hyn i'w ddisgwyl i raddau oherwydd llai o gyfranogiad ar lefel strategol. Serch hynny, byddai'n dda gweld y teimlad o gymuned a pherthyn, a fynegir gan nifer o fyfyrwyr AB ac AU mewn perthynas â'u hysgol neu adran, yn ymestyn yn ehangach ar draws eu darparydd, gan y dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddargadwedd (Tinto, 2017). Gydag un o egwyddorion strategol Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch 2024 yn ymwneud â chynnwys myfyrwyr fel partneriaid, a bwriad Medr i ddatblygu Côd Ymwneud â Dysgwyr, efallai y bydd deialog bellach ynghylch y model partneriaeth yn amserol. Gallai deialog o'r fath ganolbwyntio ar gryfhau natur gynhwysol model fel hwn, a thrwy hynny sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo bod ganddynt y cyfle i fod yn gyfranogwyr gweithredol wrth wella polisïau ac arferion sy'n ymwneud â myfyrwyr.

Er gwaethaf y gydnabyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd myfyrwyr wrth ddatblygu agenda gwella ansawdd, ychydig o ymchwil sydd wedi'i gynnal yn uniongyrchol ynghylch canfyddiadau myfyrwyr o welliant a sut maent yn teimlo eu bod yn cyfrannu at siapio profiad dysgu myfyrwyr. Gobeithir, felly, y bydd y prosiect hwn yn arwain at waith datblygu pellach yn y maes hwn, ac at wreiddio diwylliant gwelliant wedi'i gyd-greu hyd yn oed yn gryfach ar draws y sector trydyddol yng Nghymru.

## Camau nesaf posibl

**1. Cadarnhad ac eglurhad ar draws y sector AU ac AB ar ddefnyddio'r term gwelliant a diffiniadau cysylltiedig.**

**Amcan:** Eglurder a chysondeb termau i staff a myfyrwyr ac felly'r gallu i ddatblygu ymhellach y cysyniad o fyfyrwyr fel partneriaid.

**Dull a awgrymir:** Grwpiau ffocws gyda darparwyr, cyfarfodydd cyswllt blynyddol gyda QAA, ystyried y termau hyn wrth ddatblygu mecanweithiau ymgysylltu â dysgwyr Medr (er enghraifft, y Côd Ymgysylltu â Dysgwyr).

**2. Datblygu mecanweithiau llais myfyrwyr cyson a chynhwysol ar draws y sector AU ac AB.**

**Amcan:** Mae mecanweithiau llais y myfyriwr yn adlewyrchu cyd-destun y myfyriwr a'r darparwr, ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datblygu'n effeithiol ar draws y sector.

**Dull a awgrymir:** Symposiwm llais y myfyriwr, wedi'i gydlynu gan Medr a'i arwain gan fyfyrwyr, i ystyried ffyrdd amgen o annog ymgysylltiad myfyrwyr, yn enwedig gan fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr sy'n dysgu yn y gwaith. Byddai'r gweithgaredd hwn hefyd yn cefnogi datblygiad y Côd Ymgysylltu â Dysgwyr gan Medr ac yn helpu i gynhyrchu syniadau i alluogi pob myfyriwr i gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau o fewn eu darparydd. Byddai cyhoeddiad byr ar thema llais myfyrwyr, yn crynhoi canlyniadau'r symposiwm, yn cefnogi effaith hirdymor y digwyddiad.

**3. Hyrwyddo arfer effeithiol mewn mecanweithiau llais myfyrwyr.**

**Amcan:** Hyrwyddo gwelliant yn y sector ar ddulliau effeithiol o hyrwyddo llais myfyrwyr a mecanweithiau ymgysylltu ar draws pob dull ac ystod o astudio.

**Dull a awgrymir:** Byddai digwyddiad symposiwm i dynnu sylw at yr arfer da yn yr adroddiad hwn, a thu hwnt, yn rhannu arferion ar draws y sector AU ac AB. Dylai'r meini prawf ar gyfer astudiaethau achos/cyfraniadau gynnwys creu sampl cynrychioliadol ar draws gwahanol rannau o AU ac AB, dulliau astudio a chyd-destun y myfyrwyr. Yn dilyn y digwyddiad, dylid cyhoeddi astudiaethau achos i hyrwyddo ymwneud a gwelliant pellach. Byddai hyn hefyd yn adeiladu ar yr Ymchwil OB3 a gynhaliwyd yn 2019 ac a gyhoeddwyd yn 2020, gan ddod ag astudiaethau achos newydd a mwy diweddar i'r amlwg.

**4. Cefnogi darparwyr i wreiddio a siapio ymagwedd a arweinir gan welliant at lais myfyrwyr.**

**Amcan:** Mae mecanweithiau llais y myfyriwr wedi'u gwreiddio o fewn y darparydd, gyda strwythurau clir ac effeithiol.

**Dull a awgrymir:** Prosiect Gwelliant Cydweithredol QAA i ystyried arfer effeithiol mewn strwythurau sefydliadol o ran cynrychiolaeth myfyrwyr ar draws ystod o ddarparwyr AU ac AB a'u hintegreiddio â mecanweithiau ansawdd. Gallai'r astudiaeth hon ystyried enghreifftiau y tu allan i Gymru sy'n gweithredu o fewn ymagwedd a arweinir gan welliant at ansawdd o fewn system drydyddol, megis yr Alban a Seland Newydd.

# Cyfeirnodau

Gravett, K and Kinchin, I M and Winestone, N E (2019) 'More than customers': conceptions of students as partners held by students, staff and institutional leaders, *Studies in Higher Education*, 45 (12), pp 2574-2587

Millard, L and Bartholomew, P and Brand, S and Nygaard, C (2013) Why Student Engagement Matters, in Nygaard, C and Brand, S and Bartholomew, P and Millard, L (2013) *Student Engagement: Identity, Motivation and Community*, pp 1-15, Faringdon: Libri Publishing

Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2024

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - Côd Ansawdd QAA ar gyfer Addysg Uwch (2024)

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - Llawlyfr Adolygiad Gwella Ansawdd (2023)

Tinto, V (2017) Through the Eyes of Students, *Journal of College Student Retention: Research, Theory & Practice*, Vol 19(3), pp 254-269

Llywodraeth Cymru - Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi

Williams J (2016) Quality assurance and quality enhancement: is there a relationship? *Quality in Higher Education*, 22:2, pp 97-102

# Atodlen 1: Cwestiynau ar gyfer Grwpiau Ffocws

1. Beth mae'r term 'gwelliant' yn ei olygu i chi yng nghyd-destun eich profiad fel myfyriwr?
2. A yw 'gwelliant' yn rhywbeth digymell neu'n ddatblygiad bwriadol wedi'i gynllunio?
3. Ydych chi'n ei weld fel newid mawr, neu a allai fod yn rhywbeth bach?
4. Allwch chi roi enghreifftiau i mi o 'welliant' o'ch profiad prifysgol/coleg?
5. A yw'n well gennych chi'r term 'gwelliant' neu 'gwella' wrth gyfeirio at brofiad dysgu myfyrwyr, neu a yw ystyr y naill air a'r llall yn glir?
6. Ydych chi'n gyfarwydd â'r gair 'cyfoethogi' mewn perthynas â'ch profiad academaidd ac a yw'n golygu rhywbeth gwahanol i 'welliant' i chi?
7. Ydych chi'n teimlo bod gennych chi'r cyfle i wneud eich rhaglen yn well, ynghyd â rôl mewn unrhyw benderfyniadau?
8. Beth sy'n gwneud i fyfyrwyr fod eisiau cymryd rhan mewn mecanweithiau llais myfyrwyr?
9. Beth sy'n gweithio'n dda o ran mecanweithiau llais myfyrwyr yn eich prifysgol/coleg?
10. Oes yna unrhyw beth sydd ddim yn gweithio cystal yn eich barn chi?
11. Sut ydych chi'n dod i wybod pa welliannau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth myfyrwyr?
12. Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i helpu â chryfhau cyfranogiad myfyrwyr mewn gweithgareddau gwelliant yn eich prifysgol/coleg?
13. Ydych chi'n meddwl bod eich prifysgol/coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chymuned y myfyrwyr i sicrhau newid ac, os felly, a ydych chi'n ystyried eich hun yn bartneriaid cyfartal?
14. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu mewn perthynas â'ch canfyddiad chi o 'welliant'?

# Atodlen 2: Cyfranwyr at y prosiect

Hoffai QAA ddiolch i fyfyrwyr a swyddogion myfyrwyr o'r darparwyr canlynol am eu parodrwydd i gyfrannu at y prosiect hwn, ynghyd ag aelodau Grŵp Arbenigwyr Myfyrwyr Ansawdd Trydyddol sparqs:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT)
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Athrofa Padarn Sant
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Wrecsam

Cyhoeddwyd - Dydd Mawrth, 29 Hydref 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

Tel: 01452 557000
Web: www.qaa.ac.uk